# Ysgol Gymraeg Bryn y Môr

CADW IAITH CADW GWLAD



# Llawlyfr Darllen
# Reading Handbook

- Gwnewch amser darllen yn bleser i chi a'r plentyn.
- *Make reading time a pleasure for you both.*
- Dechreuwch rannu llyfrau hyd yn oed cyn i'ch plentyn wybod sut i ddal llyfr.
- *Start sharing books even before your child knows which way up to hold a book.*
- Dysgwch ganmol ymdrechion eich plentyn.
- *Learn to accept your child's efforts with praise.*
- Darllenwch lyfrau y mae eich plentyn yn eu hoffi.
- *Read books your child loves.*
- Canolbwyntiwch ar yr hyn sy'n gywir ac nid ar gamgymeriadau.
- *Focus on the things which are right, not on mistakes.*
- Stopiwch ddarllen pan fydd eich plentyn wedi cael digon- nid cosb yw darllen.
- *Stop when they've had enough- reading is not a punishment!*



# <u>**Darllen gyda phlant 3-5 oed**</u>
# <u>***Reading with 3-5 year olds.***</u>

- Darllenwch i'ch plentyn mor aml ag sy'n bosibl- unrhyw amser, unrhyw le. Hefyd, ceisiwch gadw amser arbennig i ddarllen pan fyddwch chi'n gallu closio at eich gilydd.
- *Read to your child as often as possible- any time, any place, anywhere. Also, try to keep a special time for reading, when you can cuddle up together.*

- Gwenwch storiau'n fyw gyda llawer o fynegiant a lleisiau gwirion.
- *Bring stories to life with lots of expression and silly voices.*

- Siaradwch am y storiau a'r lluniau a gallwch chwarae gêmau- beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf? Rwy'n gweld gyda fy llygad bach i…
- *Talk about the stories and pictures and play games- guess what's going to happen next?…I spy with my little eye…*

- Darllewnch lyfrau drososdd a throsodd.
- *Read favourite books over and over again.*

- Dywedwch y pethau cofiadwy gyda'ch gilydd.
- *Say the catchy bits together.*

- Dysgwch rigymau a chaneuon gyda'ch gilydd ar eich cof a gallwch bwyntio at y geiriau wrth i chi eu hadrodd gyda'ch gilydd.
- *Learn rhymes, songs and jingles together so that you both know them by heart and can point to the words as you recite them together.*

- Anogwch eich plentyn i ddod â llyfrau adref gydag ef/hi o'r llyfrgell/ ysgol.
- *Encourage your child to bring books home from libraries and school.*

- Prynwch lyfrau os y gallwch.
- *Buy books if you can.*

- Labelwch bethau o gwmpas eich cartref.
- *Label objects that are around the house.*

- Darllenwch **chi** drawstoriad o bethau, o bapurau newydd i lyfrau fel bod eich plentyn yn gweld beth yw gwerth darllen.
- *Make sure your child sees* ***you*** *reading newspapers, books, magazines- show them it's cool to read.*



# **Darllen gyda phlant 5-6 oed**
# ***Reading with 5-6 year olds.***

- Cymerwch dro i ddarllen darnau o hoff stori. Mae darllen stori gyfan yn ormod i ddarllenydd newydd. Peidiwch â phoeni os bydd eich plentyn wedi cofio geiriau neu gymalau. Mae hyn yn rhan bwysig o ddysgu darllen.
- *Take turns to read bits of a favourite story. A whole story is too daunting for a new reader. Don't worry if your child has memorised words or phrases. This is an important part of learning to read. It gives a sense of satisfaction and is not cheating. Recognising words will soon follow once the story is familiar.*

- Siaradwch am luniau a manylion sy'n dal llygaid eich plentyn. Bydd hyn yn helpu i ddeall y stori ac i ddyfalu geiriau newydd.
- *Talk about pictures and details that catch your child's interest. This will help with understanding the story and with guessing new words. Guessing is important when the child understands what the story is likely to say and chooses words which make sense.*

- Symudwch eich bys o dan y geiriau wrth ddarllen gyda'ch plentyn. Fel hyn, gwelir a chlywir geiriau gyda'i gilydd.
- *•Run your finger under the words as you read together. In this way, words are seen and heard together.*

- Peidiwch â gwneud ffys os na fydd eich plentyn yn gallu darllen gair. Naill ai dywedwch y gair eich hun ac anogwch eich plentyn i feddwl beth allai fod yn ei ddweud. Tynnwch sylw at y sain ar ddechrau gair. Peidiwch â gwylltio. Yr adeg hyn, mae'n fwy pwysig bod eich plentyn yn mwnhau darllen storiau na chael pob gair yn gywir.
- *Don't make a fuss if your child can't read a word. Either say the word yourself or encourage your child to think about what it might say. Draw attention to the starting sound of the word. Don't get cross. At this stage it is more important that your child enjoys sharing stories than getting every word right.*

- Chwaraewch gêmau'r wyddor a seiniau- Gwelaf gyda fy llygad bach i…
- *Play alphabet and sound games such as 'I spy'. Children learn a lot about words, letters and sounds through these simple games.*

- Daliwch i ddarllen i'ch plentyn bob dydd.
- *Continue to read to your child every day.*

- Ysgrifennwch nodiadau neu negeseuon testun i'ch plentyn- mae'n ddull gwych i'w cael i ganolbwyntio ar eiriau.
- *Write notes, or text messages to your child – it's a great way to get them to focus on words.*



**Darllen gyda phlant 6-7 oed**
***Reading with 6-7 year olds.***

- Daliwch i ddarllen gyda'ch giydd- bob dydd os yn bosibl. Cymerwch eich tro i ddarllen i'ch gilydd.
- *Keep reading together – every day if possible. Take turns to read to each other.*

- Dangoswch bod gennych chi ddiddordeb i wybod beth sy'n digwydd yn y stori. Siaradwch am ddechrauadau a diweddebau; y cymeriadau a sut maen nhw'n ymddwyn; y darnau sy'n drist, yn ddoniol neu'n gyffrous i chi; y geiriau a'r lluniau sy'n ddiddorol.
- *Show you are really interested in finding out what happens in the story. Talk about beginnings and endings; the characters and how they behave; the bits you find sad, funny or exciting; the words and pictures you find interesting.*

- Anogwch ddiddordeb mewn amrywiaeth o ddeunyddiau drwy ddarllen yn uchel o bapurau newydd neu gylchgronau a thrwy dynnu sylw at ddarnau yr hoffai'r plant eu darllen efallai. Helpwch eich plentyn i ddewis amrywiaeth o lyfrau o'r llyfrgell.
- *Encourage interest in a wide range of material by reading aloud from newspapers or magazines and by drawing attention to snippets which the children might like to read. Help your child choose a range of books from the library.*

- Soniwch wrth eich gilydd am eich hoff lyfrau a chytunwch ei bod yn bosibl bod gennych wahanol syniadau am yr hyn rydych chi'n hoffi ei ddarllen.
- *Tell each other about your favourite books and recognise that you may have quite different ideas about what you like to read. Respect each others' preferences and choices.*



## **Gwybodaeth bellach am ddarllen**
## ***Further information about reading***

### Pryd ddylwn i ddechrau darllen gyda fy mhlentyn?
Nid yw byth yn rhy gynnar i ddarllen gyda'ch plentyn nac i ganu caneuon a rhigymau. Mae babanod a phlant bach yn mwynhau edrych ar lyfrau lluniau a chlywed storiau'n cael eu darllen yn uchel. Maen nhw wrth eu bodd gyda rhythmau a phatrymau storiau a rhigymau cyfarwydd ac yn cael pleser o glosio at rieni neu fam-gu a thad-cu.

### *When should I start reading with my child?*
*It's never too early to read to your child or to sing songs and rhymes. Babies and toddlers enjoy looking at picture books and hearing stories read aloud. They love the rhythms and patterns of familiar stories and rhymes, as well as the pleasure of snuggling up to parents or grandparents.*

### Beth os byddan nhw'n gofyn am yr un llyfr dro ar ôl tro?
Gadewch iddyn nhw ei gael. Mae plant yn mwynhau hoff storiau. Drwy ail ddarllen, maen nhw'n dysgu patrymau iaith ysgrifenedig a bod darllen yn brofiad pleserus. Gwnewch yn siwr eich bod hefyd yn cyflwyno storiau newydd i roi blas am rywbeth gwahanol iddyn nhw.

### *What if they want the same book over and over again?*
*Let them have it. Children love favourite stories. Through re- reading, they learn the patterns of written language, and that reading is an enjoyable experience. Just make sure that you also introduce new stories to give them a taste of something different.*

### Pa fath o destun ddylwn i ei ddarllen i'm plentyn?
Unrhyw beth rydych chi'n hapus i'w ddarllen – rhigymau, llyfrau luniau, straeon gwerin, llyfrau gwybodaeth, comic, arwyddion, labeli neu adroddiadau chwaraeon o'r papur newydd. Mae plant yn hoffi'r profiad o eistedd yn agos atoch a chlywed eich llais, ac os byddwch chi'n mwynhau'r hyn rydych yn ei ddarllen, maen nhw'n dysgu bod darllen yn bleser.

### *What sort of text should I read to my child?*
*Anything that you feel happy to read – rhymes, picture books, folk tales, information books, comics, signs, labels, or sports reports from the newspaper. Children love the experience of sitting close to you and hearing your voice, and if you are enjoying what you are reading, they are learning that reading is a pleasure.*

## Pryd ddylwn i ofyn i'm plentyn gymryd rhan yn y darllen?

Mae gan y rhan fwyaf o blant hoff stori. Wrth ddarllen stori sy'n gyfarwydd i'ch plentyn, gadewch ambell air allan a bydd y plentyn fel arfer yn gorffen diwedd y frawddeg neu'n ymuno mewn cymalau ailadroddus, e.e. 'Rydyn ni'n mynd i hela arth…' Dyma ddechrau darllen er bod eich plentyn yn 'darllen' o'r cof. Pan fydd plentyn yn gyfarwydd â'r stori, gall wedyn ddechrau adnabod y geiriau ysgrifenedig. Yn ystod y cam hwn, gall y plentyn ddewis cymryd y llyfr a 'dweud' y stori yn ei eiriau ei hun.

## *When shall I ask my child to take part in reading?*

*Most children have a favourite story. When reading a story that is familiar to your child, leave gaps and you will find that they will finish the ends of sentences or join in with repeated phrases, e.g. Run, run as fast as you can' or 'Fee, fi, fo fum'. This is the beginning of reading, although your child is 'reading' from memory. Once a child is familiar with the story, he/she can begin to recognise the words in print. At this stage the child may choose a book and retell the story in his/her own words.*

**Beth am y wyddor?** Anogwch eich plentyn i ddysgu enwau llythrennau a synau llythrennau. Mae angen i blant i fod yn gyfarwydd â llythrennau, i adnabod eu siâp a'u trafod wrth eu henwau. Mae cyfresluniau o'r wyddor a llythrennau plastig yn helpu plant i ddysgu enwau llythrennau. Mae gêmau fel 'Gwelaf â'm llygad bach i' neu frawddegau gwirion, gêmau a chaneuon odli'n helpu plant i glywed synau llythrennau neu batrymau geiriau. Mae cyfres 'Tric a Chlic' yn ddefnyddiol dros ben i gynorthwyo gyda dysgu adnabyddiaeth o'r wyddor.

***What about the alphabet?*** *Encourage your child to learn letter names and letter sounds. Children need easy familiarity with letters to recognise their shape and talk about them by name. Alphabet friezes and plastic letters help children learn the names of letters. Games such as 'I-Spy' or silly sentences, rhyming games and songs help children hear letter sounds or word patterns. The 'Tric a Chlic' series is extremely useful with assisting the learning of alphabet recognition.*

## Beth os bydd fy mhlentyn yn gwneud camgymeriad?

Os bydd y 'camgymeriad' yn gwneud synnwyr, gadewch i'ch plentyn gario ymlaen. Y camgymeriadau pwysig yw'r rhai nad ydynt yn gwneud synnwyr. Byddai wedyn yn ddefnyddiol i chi ailadrodd y frawddeg neu ddwy flaenorol gan gynnwys y camgymeriad,trafod a yw'n gwneud synnwyr a dweud y gair cywir wrth y plentyn. Y peth pwysig wrth ddarllen yw bod yr ystyr yn glir.

## *What if my child makes a mistake?*

*If the 'mistake' makes sense, let your child continue reading. The mistakes that matter are the ones that don't make sense. It would then be helpful to reread the preceding couple of sentences, including the error, and discuss whether it makes sense and tell the child the correct word.*

*The most important thing when reading is that the meaning is clear.*

## Beth ddylwn i ei wneud os na fydd fy mhlentyn yn adnabod gair?

Yn y cyfnod cynnar, dywedwch y gair i gadw ystyr y stori neu dywedwch y sain cyntaf i weld a fydd eich plentyn yn gallu rhagweld beth yw'r gair. Peidiwch â gofyn i'ch plentyn seinio gair anadnabyddus. Nid yw hyn fel arfer yn gweithio yn arbennig gyda geiriau cyffredin, bach fel 'tŷ', 'cael', 'mynd'. Os byddwch chi'n amheus, cofiwch ddweud y gair wrth eich plentyn.

## *What should I do if my child doesn't recognise a word?*

*In the early stages, just say the word to keep the meaning of the story, or quietly say the first sound and see if your child can predict what the word is. Don't ask your child to sound out an unknown word as this generally doesn't work, particularly with small, common words such as 'the', 'this', 'you'. If in doubt, always tell your child the word.*

## A ddylwn i guddio'r lluniau?

Na, mae lluniau'n llawn diddordeb i blant ac maen nhw'n rhoi syniad beth sy'n digwydd yn y stori. Anogwch eich plentyn i edrych yn ofalus ar y lluniau er mwyn ei helpu gyda'i ragfynegiadau.

## *Should I cover up the pictures?*

*No, pictures are full of interest to children and give clues about what is happening in a story. Encourage your child to look closely at the pictures, to help them with their predictions.*

## Pa mor aml ddylai fy mhlentyn ddarllen i mi?

Anogwch eich plentyn i ddarllen i chi ddwy neu dair gwaith yr wythnos ar adeg sy'n gyfleus i chi'ch dau. Mae'n bosibl y bydd hefyd am ddarllen i frawd neu chwaer iau neu i nain a thaid. Os bydd eich plentyn yn dechrau blino, cofiwch orffen y stori a'i thrafod wedyn.

## *How often should my child read to me?*

*Encourage your child to read to you a few times each week at a time that suits you both. He/She may also like to read to a younger brother or sister, or to grandparents. If your child gets tired, always finish the story and chat about what you've read.*

## Sut alla' i helpu pan fydd fy mhlentyn am ddarllen yn dawel?

Os bydd eich plant am ddarllen yn dawel, yn arbennig wrth iddyn nhw ddarllen storiau hirach, trafodwch eu barn ar y stori neu arddull yr awdur/arlunydd. Daliwch i ddangos bod gennych ddiddordeb yn eu dewis ond parchwch eu hannibyniaeth gynyddol fel darllenwyr. Mae'n bwysig, fodd bynnag, parhau i ddarllen yn uchel i'ch plant ar ba gam bynnag maen nhw yn eu datblygiad darllen.

## *How can I help when my child wants to read silently?*

*If your child prefers to read silently, particularly as they read longer stories, just chat about their view of the story or the author's/illustrator's style. Continue to show that you are interested in their choice but respect their growing independence as readers. It is important however, to continue to read aloud to your child, whatever their stage of reading development.*

## Rydw i'n siarad Saesneg. Sut alla i helpu fy mhlentyn i ddarllen yn y Gymraeg?

Y peth pwysicaf i chi ei wneud yw dangos agwedd gefnogol o'r dechrau un. Bydd hyn yn creu hyder yn eich plentyn. Mae digon o storiau, caneuon a rhigymau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd eich plentyn yn cael y gorau o'r ddau fyd. Anogwch eich plentyn i ddarllen yn uchel yn y ddwy iaith mor aml ag sy'n bosibl – pan fyddwch chi'n siopa, yn y car neu ar y bws. Gallwch chi ddarllen yr arwyddion yn y Saesneg a gall eich plentyn eu darllen yn y Gymraeg. Edrychwch ar y lluniau mewn llyfr stori Cymraeg a siaradwch amdanyn nhw yn y Saesneg. Bydd llawer o'r ystyr yn dod yn glir drwy'r lluniau. Gofynnwch i'ch plentyn ddweud y gair Cymraeg wrthych am rai pethau yn y stori neu'r llyfr lluniau. Bydd hyn yn rhoi llawer o hyder i'ch plentyn. Mae plant ifanc yn dysgu trosglwyddo o un iaith i'r llall yn llawer haws nag oedolion. Gofynnwch i'ch plentyn ddweud yn y Saesneg am stori maen nhw wedi'i darllen yn y Gymraeg. Mae storiau traddodiadol yn lle da i ddechrau neu lyfr lluniau rhagorol. Fel mewn pob sefyllfa o ddarllen ar y cyd, y peth pwysicaf y gallwch ei wneud yw annog a dangos diddordeb. Rhannu pleser yw'r ffactor pwysicaf.

## *I'm an English speaker. How can I help my child with reading in Welsh?*

*The most important thing you can do is to show a supportive attitude from the very beginning. This will build your child's confidence. There are treasure troves of stories, songs and rhymes in English and Welsh. Your child will have the best of both worlds. Encourage your child to read aloud in both languages as often as possible – when you're out shopping, in the car, or on the bus. You could read the signs in English and your child could read them in Welsh.*

*Look at the pictures in a Welsh storybook and talk about them in English. Much of the meaning will become clear through the pictures. Ask your child to tell you the Welsh word for certain items in the story or picture book. This will give your child a lot of confidence. Young children learn to switch easily from one language to the other – much more easily than grown-ups. Ask your child to tell you in English about a story they've read in Welsh. Traditional stories are a good starting point or an excellent picture book. As in all shared reading situations the most important thing you can do is to encourage and show interest. Shared enjoyment is the most important factor.*

## **Syniadau am weithgareddau darllen i blant 7+**

*Ideas for reading activities for children aged 7+*

| | |
|---|---|
| Ysgrifennwch/ trafodwch beth ddigwyddodd yn y dechrau, canol neu ddiwedd y llyfr. | *Write/discuss what happened in the beginning, middle and end of the story.* |
| Chwiliwch am ansoddeiriau, enwau, berfau. | *Look for adjectives, nouns, verbs.* |
| Trafodwch beth sy'n digwydd yn y llun. | *Discuss what is happening in the picture.* |
| Trafodwch y clawr. | *Discuss what is on the cover of the book.* |
| Ysgrifennwch froliant i'r llyfr | *Write your own blurb for the book.* |
| Dewiswch eich hoff gymeriad. Tynnwch ei lun a'i ddisgrifio. Gwnewch boster 'Ar Goll' ar gyfer un o'r cymriadau. | *Choose who is your favourite character. Draw a picture of him/her and describe it. Write a 'Wanted' poster for one of the characters.* |
| Dosbarthwch y brawddegau: gwir neu gau. | *Distribute the sentences: true or false* |
| Gosodwch restr o eiriau yn nhrefn yr wyddor | *Write a list of words from the book in alphabetical order.* |
| Chwiliwch mewn geiriadur am ystyr y geiriau. . . | *Look in a dictionary for the meaning of these words. . .* |
| Ysgrifennwch swigen siarad/ cwmwl meddwl un o'r cymeriadau. | *Write a speech bubble or a thinking cloud for a character.* |
| Chwiliwch am eiriau allan o'r llyfr sydd wedi eu cuddio yn y chwilair. | *Look for some words that are hidden in the word search.* |
| Ysgrifennwch ddiweddglo gwahanol i'r llyfr. | *Write a different ending to the story.* |

**Cofnod darllen eich plentyn**. Pan fyddwch yn darllen gyda'ch plentyn mae'n syniad da i roi sylw yn y cofnod ar sut y gwnaeth eich plentyn ddarllen, neu ymateb eich plentyn i'r llyfr.

Weithiau gall ysgrifennu sylw adeiladol am ddarllen eich plentyn, heb ail-adrodd fod yn eithaf anodd.

Dyma rai awgrymiadau y gallwch eu defnyddio **os** dymunwch chi. Cofiwch - nid oes yn rhaid defnyddio'r rhain, gallwch chi ysgrifennu eich sylwadau eich hun. Dim ond awgrymiadau sydd yma.

- Gwrandawodd Sion ar y stori, ac edrych ar y lluniau. Roedd e' wedi mwynhau ac edrychodd ar y llyfr ar ei ben ei hun wedyn.
- Mae Sion yn adnabod sain cychwyn geiriau, ac yn dyfalu'r gair wrth edrych ar y lluniau.
- Mae Sian yn dweud pob llythyren gyntaf ac wedyn yn adeiladu'r gair. Mae hi'n gweithio'n galed!
- Roedd Sian yn adnabod ambell air, ac yn gallu pwyntio at eiriau roedd hi'n eu hadnabod.
- Bu Sion yn edrych ar y llyfr ac yn dweud y stori wrtho'i hun wrth droi'r tudalennau.
- Roedd Sian wrth ei bodd yn edrych ar y lluniau ac yn sôn am beth oedd yn digwydd yn y llyfr.
- Roedd Sion yn awyddus iawn i eistedd gyda fi i edrych ar y llyfr.
- Gallodd Sian ddarllen y cardiau fflach yn ddidrafferth. Yna roedd hi'n gallu ffeindio'r geiriau yn y testun ac yn gallu eu darllen. Gwych!
- Cafodd Sion drafferth gyda ambell air ar y cardiau fflach e.e. ... Ond roedd yn gallu dod o hyd i ambell un yn y testun. Roedd e'n mwynhau.
- Mae Sian yn adnabod geiriau cyfan yn gyflym nawr.
- Mae Sion yn carlamu trwy'r llyfr yma, mae e'n adnabod y geiriau heb orfod seinio pob un llythyren.
- Fe wnaethon ni ddarllen y llyfr yma gyda'n gilydd. Darllenais frawddeg/tudalen ac wedyn roedd Sian yn darllen brawddeg/tudalen.
- Mae Sion wedi deall y stori'n dda ac yn trafod beth ddigwyddodd.
- Doedd Sian ddim yn hoffi'r stori yma, doedd hi ddim yn meddwl bod y cymeriadau yn ddifyr iawn.
- Trafodon ni y cymeriadau, ac roedd Sion yn gallu dweud pa un fyddai'n gwneud ffrind da a pham.
- Mae Sian wrth ei bodd gyda llyfrau barddoniaeth ac yn hoffi eu darllen yn uchel.
- Darllenodd Sion yn wych, roedd e'n cymryd sylw o'r atalnodau llawn.
- Darllenodd Sian yn wych, roedd hi wrth ei bodd yn gwneud llais arbennig cyn ebychnod!
- Mae Sion wrth ei fodd â llyfrau lle mae e'n gallu gwneud lleisiau gwahanol. Sylwodd i ar y marc cwestiwn yn y testun ac roedd e'n gallu amrywio ei lais wrth ofyn cwestiwn.

- Mae Sian yn deall bod rhywun yn siarad pan mae dyfynodau yn y llyfr. Mae hi'n dda iawn am actio gwahanol gymeriadau!
- Rydw i'n teimlo bod Sion yn darllen yn rhy gyflym weithiau ac felly dydy e' ddim yn deall beth mae e' wedi ei ddarllen.
- Mae Sian yn darllen yn hyderus iawn, ond dydy hi ddim yn deall beth mae hi wedi ei ddarllen o hyd.
- Mae Sion yn deall y medrith ddarllen ymlaen at ddiwedd y frawddeg i drio darganfod beth mae gair anodd yn ei feddwl.
- Fe wnaethon ni'n dau edrych yn y geiriadur am ystyr rhai o'r geiriau.
- Weithiau mae Sian yn colli hyder pan mae'n dod ar draws gormod o eiriau anodd.
- Pan mae Sion yn dod ar draws gair anodd, mae oen trio ei dorri yn llai, ac yn trio darllen ei ddechrau/canol/diwedd.
- Rhaid i mi ganmol Sian – mae hi'n gallu cywiro ei hun yn dda pan mae hi'n mynd yn ôl at air ac yn ei ddarllen yn gywir. Gwych!
- Weithiau mae Sion yn drysu geiriau bach fel -....... Ond mae e'n cywiro ei hun fel arfer.
- Darllen yn wych heddiw, darllen yn uchel gydag ystyr.
- Mae Sion yn darllen yn hyderus ac yn deall beth mae'n ei ddarllen hefyd.
- Rydyn ni wedi cael llawer o hwyl â'r llyfr yma!
- Dydw i ddim yn siŵr os ydy'r llyfr yma yn addas ar gyfer Sion i'w ddarllen ar ben ei hun. Ond mi wnes i ei ddarllen iddo.
- Gawn ni lyfr ychydig yn haws i Sian gael darllen ar ei phen ei hun yr wythnos hon os gwelwch yn dda?
- Carlamodd Sion trwy'r llyfr, a'i drafod yn dda wedyn.
- Ar ôl darllen y llyfr trafodn ni sut y bydden ni'n hoffi i'r stori orffen. Fe gawson ni hwyl yn meddwl am well ddiweddglol i'r stori.
- Mae Sion wedi tynnu lluniau rhai o'r cymeriadau. Roedd wrth ei fodd.
- Mae Sian wedi dylunio clawr newydd i'r llyfr yma, achos roedden ni'n meddwl fod y clawr braidd yn ddiflas.
- Doedd Sion ddim yn meddwl fod y lluniau yn dda iawn – na finnau chwaith!
- Doedd Sian ddim yn awyddus i ddarllen heno, efallai ei bod wedi blino, felly mi wnes i ddarllen ychydig o'r llyfr iddi hi.
- Dydyn ni ddim wedi gorffen y llyfr, achos doedden ni ddim yn ei fwynhau.
- Wedi mwynhau'r llyfr yma'n fawr iawn. Oes yna lyfrau tebyg fedrwn ni eu cael?
- Mae Sian wrth ei bodd â'r gyfres hon, mae'r lluniau'n wych, a digon o wybodaeth ynddyn nhw.
- Mae Sion wrth ei fodd gyda'r math yma o lyfrau. Oes yna fwy o rai tebyg?
- Ychydig iawn o help fu angen ar Sion heddiw. Darllenodd heb drafferth.
- Rwy'n hapus iawn â datblygiad darllen Sion/ Sian.

***Your child's 'Reading Record Comment Book'.***

*When reading with your child, it 's a good idea to write comments in the record about how your child has read, or has responded to the book.*

*Sometimes, writing a constructive comment about your child's reading, without being repetitive, can be quite difficult. Here are some suggestions you could use. But remember, don't feel that you have to use them; you may write your own comments. These are merely suggestions.*

- *Sion listened to the story, and looked at the pictures. He enjoyed and looked at the book himself afterwards.*
- *Sion recognises the first sound of words, and guesses the word by looking at the pictures.*
- *Sian says every first letter then builds the word. She works hard!*
- *Sian recognised a few words, and could point to words she knew.*
- *Sion looked at the book and read the story to himself by turning the pages.*
- *Sian loved looking at the pictures and talked about what was happening in the book.*
- *Sion was very eager to sit down with me to look at the book.*
- *Sian could read the flash cards with ease. She then went on to find the words in the text and could read them. Excellent!*
- *Sion had difficulty with a few words on the flash cards e.g. ... But he could find a few in the text. He enjoyed.*
- *Sian can now recognise whole words quickly.*
- *Sion is flying through this book, and he recognises the words without having to sound every letter.*
- *We read this book together. I read a sentence/page and then Sian read a sentence/page.*
- *Sion understood the story well and discussed what had happened.*
- *Sian didn't like this story; she didn't think that the characters were very interesting.*
- *We discussed the characters and Sion could say who would make a good friend and why.*
- *Sian loves poetry books and likes to read them aloud.*
- *Sion read extremely well, and paid attention to the full stops.*
- *Sian read extremely well, she loved putting on a different voice before an exclamation mark!*
- *Sion loves books where he can use different voices.*
- *Sion noticed the question mark in the text and could change his voice when asking a question.*

- *Sian understands that someone is talking when there are speech marks in the book. She is good at acting different characters!*
- *I feel that Sion reads too quickly at times, and therefore doesn't understand what he has just read.*
- *Sian reads very fluently but she still doesn't understand what she has read.*
- *Sion understands that he can carry on reading to the end of the sentence to find what a difficult word means.*
- *We both looked in the dictionary for the meaning of some of the words.*
- *Sometimes, Sian lacks confidence when she comes across too many difficult words.*
- *When Sion stumbles with a difficult word, he tries to break it down and tries to read its start/middle/end. I praised him a lot for doing this.*
- *I must praise Sian – she can correct herself well when she goes back to a word and reads it correctly. Excellent!*
- *Sometimes Sion confuses small words like - .... But he usually corrects himself.*
- *Read well today, read aloud with meaning.*
- *Sion reads fluently and understands what he has read.*
- *We have had a lot of fun with this book!*
- *Sion flew through the book and discussed it well afterwards.*
- *After reading this book, we discussed what we should do if that happened to us.*
- *After reading the book, we discussed how we would like the story to end. We had fun thinking about a better ending to the story.*
- *Sion has drawn pictures of some of the characters. He loved it.*
- *Sian has made a new cover for this book because we thought that the cover was rather boring.*
- *Sion didn't think that the pictures were very good – nor me!*
- *Sian didn't want to read tonight, maybe she was tired, so I read a bit of the book to her.*
- *We haven't finished the book because we weren't enjoying it.*
- *Enjoyed this book very much. Are there similar books we could borrow?*
- *Sian loves this series; the pictures are brilliant and informative.*
- *Sion loves these types of books. Are there any more?*
- *Sion needed very little help today. He read without difficulty.*
- *I am very happy with Sion's/Sian's reading development.*